CYNGOR SIR DDINBYCH
HYSBYSIAD O GYNYGION
Westbourne Avenue a'r Ffordd Gyffiniol, Y Rhyl, Dim Aros ar Unrhyw Adeg

Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho, a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ___ y Rhyl 2026.

RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN bod Cyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") yn ymarfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu, yn cynnig gwneud y Gorchymyn a enwir uchod, a bydd ei effaith fel y disgrifir yn yr atodlen isod.

Nodir manylion llawn y cynigion yn y Gorchymyn drafft ynghyd â'r cynlluniau atodol a datganiad o'r rhesymau ar gyfer cynnig i wneud y Gorchymyn, i'w gweld ar-lein ar wefan y Cyngor.

Gellir archwilio copi copi o'r Gorchymyn arfaethedig, a map sy'n dangos y darnau o ffordd y mae'r cynigion yn berthnasol iddynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

gwneud y Gorchymyn, yn ystod oriau swyddfa arferol yn **(Llyfrgell y Rhyl, Church Street, y Rhyl)**

Gall unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig wneud hynny drwy gyflwyno ymatebion i holiadur ynglŷn â'r cynigion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych (www.sirddinbych.gov.uk/ymgynghoriadau) neu drwy anfon datganiad ysgrifenedig yn gwrthwynebu, yn nodi'r seiliau i'r gwrthwynebiad, at y Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ, erbyn 29/04/2026 fan bellaf. Dylid nodi y gallai cynnwys unrhyw sylwadau y mae'r cyngor yn eu derbyn fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

Atodlen

Darnau o ffordd yn y Rhyl yn Sir Ddinbych

Dim Aros ar Unrhyw Adeg

Mae Amrywiad y gorchymyn hwn yn effeithio ar y ffyrdd canlynol yn y Rhyl

- Westbourne Avenue
- Wood Road
- Ffordd Fynediad Ddienw i Llyn Morol
- Seabank Road
- Oakland Avenue

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

Dyddiedig ***08fed Ebrill 2026***

Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych

(SBH/???)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.